


Cofion a Chyfarchion

- Estynnwn ein cydymdeimlad â phawb o'r fro sydd wedi cyfarfod â phroffedigaeth yn ystod yr wythnos, gan hyderu y cânt adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn gwarchod drostynt.
- Anfonwn ein cofion hefyd at Gwyneth Wynne (Henllan) sydd yn Ysbyty Gobowen, a hefyd Robert Edwards (Groes) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd - y ddau wedi cael llawdriniaeth ddiweddd yr wythnos. Hyderwn y byddant yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal, ac yn eu hiachau.
- Llongyfarchiadau calonnog i Aled Jones (Saron) a Jen ar eu dyweddiad.

Detholiadau



Os hoffech gael copi o Raglen Cymanfaoedd Canu 2012-2013 (Hen Nodiant a/neu Sol-ffa), rhowch eich archeb i arolygwyr eich Ysgol Sul **ERBYN DYDD SUL, HYDREF 7^{fed}** os gwelwch yn dda. Pris: £1.35
(Arolygwyr: Wnewch chi roi eich archeb i Mair ddechrau'r wythnos ganlydol, os gwelwch yn dda?)

I ddo

- **Cyfarfodydd Diolchgarwch Henllan** dydd Llun, Hydref 8fed. Bydd gwasanaeth y prynhawn am 2.00 yng ngofal plant Ysgol Henllan a Rhodri Glyn, ac yna oedfa'r hwyr am 7.00 gyda'r Parch Gerallt Lloyd Ifan, Bodorgan yn pregethu.
- **Cymdeithas Chwiorydd Peniel, Nantglyn a'r Groes** - cyfarfod cynta'r tymor nos Fawrth, Hydref 9fed.
- **Cyfarfod Diolchgarwch yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn** nos Fercher Hydref 10fed am 7.00 gyda'r Parch John Lewis Jones yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- **Cyfarfod Chwiorydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** nos Fercher, Hydref 17eg am 7.00 yng Nghapel Mynydd Seion, Abergele yng nghwmni Elinor Owen.
- **Cyfarfod Chwiorydd Bro Aled** nos Iau, Hydref 25ain am 7:00 yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan yng nghwmni Hywel Meredydd, Tearfund, fydd yn siarad am ei daith i Peru.
- **Oedfa Ddiolchgarwch yng Nghapel Cefn Berain** nos Wener, Hydref 26ain am 7.00. Gwasanaethir gan y Parch. Eifion Jones.
- **Oedfa'r Fro Arbennig** yn Llansannan yng nghwmni Meirion a Sarah Morris nos Sul, Hydref 28ain am 6.00.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 30^{ain} Medi 2012

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Cofiwch am y Cyfarfod Plant fydd yn cychwyn yn Ysgol Pant Pastynog pnawn Gwener am 3.00!

Ychydig fisoedd yn ôl, trefnodd Haf i'r Tîm Gwasanaethu gael cyfarfod hefo Andrew Sturgess sy'n drefnydd FoodBank yng Ngogledd Cymru. Ers hynny rydym wedi cefnogi'r Parch. Wayne Roberts yn ei ymdrech i agor Banc Bwyd yn Ninbych. Bydd yn agor yn swyddogol ar Hydref 9fed a dymunwn bob llwyddiant a bendith Duw ar y cynllun. Gobeithio y byddwch chwithau'n gweld yn dda i gefnogi.

Sut y medrwn ni gefnogi'r cynllun sy'n anelu at ddarparu bwyd i bobl leol sy'n mynd trwy argyfyngau, dyled neu ddiweithdra ac sydd yn ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd ar hyn o bryd? Mae bocsys casglu bwyd wedi eu gosod ym mhob capel trwy'r Fro a gobeithio y byddwch fel aelodau yn trefnu i gasglu bwyd a llenwi'r bocsys yn lled gyson i ymateb i'r galw. Wedyn, gallwch fynd â'r bocs i Capel Mawr, Dinbych pan fo'r Banc Bwyd ar agor (oriau agor: Dydd Llun a dydd Gwener rhwng 10.30yb - 1.30yp) neu gallwch ffonio y Parch. Wayne Roberts (07899 917545) a fydd yn trefnu i rywun ddod i gasglu'r bocs ac i ddod â bocs gwag arall yn ei le, neu mae croeso i chi gysylltu â Mair (01745 870632 / 07900 627536 / mair@eglwysibroaled.com) ac fe wnaiff hi ofalu bod y bocs yn cyrraedd pen ei daith. Ar ôl i'r bocs gyrraedd y Capel Mawr, bydd y bwyd yn cael ei baratoi yn becynnau i deuluoedd ac unigolion sydd mewn angen. Dyma i chi restr o'r bwydydd fyddai'n dderbyniol - cofiwch, rhaid i **bopeth fod mewn tun neu baced - dim bwydydd ffres** os gwelwch yn dda, a **'best-before' o leiaf ddau fis ymlaen:**

- | | | |
|-------------|-----------------|----------------------------|
| ✓ Cawl | ✓ Pwdin Reis | ✓ Siwgr |
| ✓ Ffa Pôb | ✓ Pwdin Sbwng | ✓ Reis |
| ✓ Tomatos | ✓ Cwstard | ✓ Pasta |
| ✓ Llysiau | ✓ Sudd Cordials | ✓ Tatws Mash neu Datws Tun |
| ✓ Cig | ✓ Llefrith UHT | ✓ Sawsiau |
| ✓ Pysgod | ✓ Te | ✓ Grawnfwydydd |
| ✓ Ffrwythau | ✓ Coffi | ✓ Bisgedi Snac |

Bydd gan Mair, Rhodri a finnau gyflenwad o 'vouchers' bwyd, a'r cyfan sydd rhaid digwydd ydi bod un ohonom yn cael gwybod am yr angen ac yna fe fydd un ohonom yn arwyddo'r tocyn a bydd y person, neu ffrind, yn mynd i Ddinbych i nôl y bwyd neu yn gofyn iddo gael ei anfon i'r cartref. Cyflenwad dros dri diwrnod ydyw fel arfer ac fe fydd cofnod yn cael ei gadw i ddiogelu nad oes neb yn cymryd mantais ar y drefn ond eu bod yn cael help ychwanegol gan asiantaethau eraill i'w helpu ymhellach. Bydd gan feddygon teulu, staff CAB, Cymdeithas Tai Clwyd ayb hefyd docynnau i'w dosbarthu. 'Yn gymaint ag y gwnaethoch i un o'r lleiaf o'r rhain, fy mrodyr, i mi y gwnaethoch.' (Geiriau Crist, Mathew 25: 40) Gweddiwn dros ein cymunedau heddiw, dros bawb sydd mewn angen a thros bawb sy'n helpu eraill.

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma Mawrth
- **Oedfa'r Fro ar Daith** - y tro hwn yng **Nghefn Berain** am 6.00.
 - **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30. *Ceisiadau gweddi i Celfyn (550274) neu Hafwen (813445), os gwelwch yn dda.*
- Mercher lau Gwener
- **Adnabod Addoli** yn Ffestri Llansannan am 8.00.
 - **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.
 - **Cyfarfod Plant** yn Ysgol Pant Pastynog o 3.00-4.30. Croeso i unrhyw blentyn oed cynradd.
 - **Gemau C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sadwrn
- **Diwrnod i'r Brenin** – Gŵyl Gristnogol i'r teulu cyfan o 10.00 – 4.00 ar faes y sioe yn Llanelwedd.
- Sul nesaf
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 10.30, a bydd Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Mercher
- Bydd y Gymdeithas Undebol yn cychwyn ar dymor newydd am 7.30 yn Neuadd Goffa Llanfair. "Y Ddwy Sian" fydd yn diddori. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf
- Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma
- Bydd y Parch Dafydd Rees Roberts yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn dilyn y rhan ddechreuol o'r oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- lau
- Dydd Jangl. Ar ddydd lau cyntaf y mis, mae yna drefniant newydd! Dewch am banded **erbyn 11.00** a bydd rhywun wedi ei wahodd i roi sgwrs, ac yna cewch ginio fel arfer oddeutu 12.00. Croeso i bawb!
- Sul nesaf
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn dilyn y rhan ddechreuol o'r oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma
- Bydd y Parch Dafydd Rees Roberts yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am **10.30** a bydd Ysgol Sul y plant yn dilyn rhan ddechreuol yr oedfa. Wedi'r oedfa, bydd cyfle i'r plant a'r oedolion fynd ar daith gerdded fer ac yna dod yn ôl i gae Tyn y Ffrith i gael cinio. Bydd paned ar gael yn y festri i'r rhai fydd ddim am gerdded. Pris: Oedolion £8, plant £3. Bydd yr elw yn mynd tuag at Apêl Guatemala.
- lau
- Cynhelir Oedfa Ddiolchgarwch yng Nghapel Saron am 7.00 gyda'r Parch. Christopher Prew yn pregethu.
- Sul nesaf
- Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf
- Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.30 a bydd cinio yn dilyn y gwasanaeth pryd y derbynir cyfraniadau yn ddiolchgar tuag at Apêl Guatemala. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 a bydd y Parch Trefor Lewis yn arwain oedfa yno am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma
- Cynhelir gwasanaeth arbennig yn Llanefydd am **10.30** fydd yn sôn am Apêl Guatemala ac mae ieuenctid yr Ysgol Sul yn trefnu cinio i ddilyn yn y Capel i gasglu arian - CINIO: 'O Gymru i Guatemala' - am 11.30. Croeso cynnes i bawb - pawb i ddod â llwy a bowlen, os gwelwch yn dda. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd Oedfa'r Fro ar Daith ac yn cael ei chynnal yng Nghefn Berain am 6.00.
- Gwener
- Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. Croeso mawr i bawb!
- Sul nesaf
- Bydd y Parch. Irfon Parry yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.